**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/0144/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Ebrill 2017

Annwyl Huw,

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 29 Mawrth.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac rwy'n cytuno'n llwyr bod cydymffurfio â rhwymedigaethau hawliau dynol o'r pwys mwyaf. Fodd bynnag, rwy'n dal o'r farn y byddai gwelliant penodol i gyfeirio mewn termau cyffredinol at gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn ar wyneb y Bil yn ddiangen ac yn amhriodol, o ystyried y ddyletswydd statudol drosfwaol bresennol sydd ar awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â rhwymedigaethau hawliau dynol, a'r cyfyngiadau penodol yn y Bil sy'n berthnasol i ymarfer swyddogaethau gorfodi. Rwy'n ymwybodol o'r angen i ddefnyddio deddfwriaeth i orfodi rhwymedigaethau penodol, neu newid y gyfraith fel arall, ac i beidio â gwneud darpariaethau diangen sydd â'r potensial i beri amheuaeth ynghylch cysondeb y gyfraith, ac ynghylch gweithredu cyfyngiadau penodol ar ddefnyddio'r pwerau.

Yn benodol, mae cyfres o fesurau diogelu wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil o ran sut y bydd swyddogion awdurdodedig yn ymarfer eu pwerau mynediad ac archwilio. Mae'r rhain yn darparu amddiffyniad ychwanegol i'r rheini sy'n berchen ar eu cartrefi drwy sicrhau bod pwerau mynediad yn cael eu hymarfer mewn modd priodol a chymesur. Enghraifft o hyn oedd y gwelliannau a gafodd eu cytuno yn ystod Cam 2 y trafodion ar 23 Mawrth, sy'n darparu ar gyfer yr angen i'r swyddog awdurdodedig roi ei enw; dangos tystiolaeth ddogfennol ei fod yn swyddog awdurdodedig; a rhoi copi o'r warant i'r meddiannydd; os bydd meddiannydd eiddo yn bresennol pan fydd gwarant yn cael ei gweithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fy marn i, byddai mewnosod mesurau diogelu penodol ac ymarferol fel hyn yn ddull sydd â mwy o ffocws iddo ac sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer amddiffyn hawliau'r unigolyn; yn hytrach na chyfeirio'n fwy cyffredinol at rwymedigaethau hawliau dynol a fyddai'n dyblygu'r ddyletswydd bresennol sydd ar awdurdodau gorfodi i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn o dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("dyletswydd HRA") wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Hefyd rwyf wedi cyflwyno gwelliannau yn ystod Cam 2 mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad cynharach y Pwyllgor y dylid datgan yn hollol eglur ar wyneb y Bil mai cyrff cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi ar gyfer Rhan 2 y Bil. Mae'r gwelliannau hyn yn mynd cam ymhellach nag argymhelliad gwreiddiol y Pwyllgor drwy enwi'n glir yr awdurdodau gorfodi – sef awdurdodau lleol ar gyfer pob eiddo a cherbyd, yn ogystal â rôl yr heddlu wrth ymwneud â cherbydau gan fod ganddynt y pŵer i stopio cerbydau preifat. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau mai dim ond y sefydliadau hynny sydd eisoes yn rhwymedig gan y ddyletswydd HRA, ac sydd â dealltwriaeth drwyadl ohoni, fydd yr awdurdodau gorfodi.

Mae canllawiau cyffredinol sydd eisoes wedi eu hen sefydlu ar waith o dan y *Cod ymarfer ar gyfer yr heddlu yn ymarfer pwerau statudol mewn perthynas â mynediad, chwilio a meddiannu. (PACE Cod B),* sy'n berthnasol i'r heddlu ac i swyddogion awdurdodau lleol sy'n ymchwilio i droseddau, ac sy'n rhoi pwyslais clir ar weithredu'n unol â Deddf Hawliau Dynol 1998. Rwyf hefyd yn fodlon cadarnhau y byddwn yn manteisio ar y cyfle i atgoffa awdurdodau gorfodi o'r angen iddynt weithredu'n unol â'u rhwymedigaethau presennol o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol, ac iddynt ddarparu'r hyfforddiant priodol i swyddogion gorfodi, wrth inni baratoi canllawiau penodol ar bwerau gorfodi o dan Ran 2 o'r Bil.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at Dr Dai Lloyd, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health